No.

# PWYLLGOR CYSWLLT CYMUNEDOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.M. Hanks (Cadeirydd); Cynghorydd M.R. Wilson (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, J. Aviet, R.M. Birch, S. Campbell, C.A. Cave, S.J. Haines, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson a S.D. Perkes.

Cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned: Y Cynghorwyr S. Hodges (Cyngor Tref y Barri), Y Cynghorwyr J. Andrew Y Bont-faen gyda Chyngor Tref Llanfleiddan), Y Cynghorwyr G. Thomas (Cyngor Tref Llanilltud Fawr), B. Morris (Cyngor Cymuned Tregolwyn), Dr. A. Rees (Cyngor Cymuned Llancarfan), D. Reed (Cyngor Cymuned Llan-gan - Eilydd), M. Narusberg (Cyngor Cymuned Llan-faes), G. Marks Cyngor Cymuned Llanfihangel), G. Kellen (Cyngor Cymuned Pendeulwyn), S.M. Toker (Cyngor Cymunedol Sain Tathan), W. Howells (Cyngor Cymunedol Sain Siorys a Llansanffraid-ar-Elái), I. Perry (Cyngor Cymuned San Nicolas a Thresimwn), N. Parry (Cyngor Cymuned Sili a Larnog) a C. Hawkins (Cyngor Cymuned y Wig).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr I. Buckley, C.P. Franks, C. Iannucci, G. John, C.Stallard and E. Williams.

169 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

170 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr H.M. Payne (Cyngor Bro Morgannwg), K. Hatton (Cyngor Cymuned Dinas Powys), R. Thomas (Cyngor Cymuned Llandŵ) a S. Rich ((Cyngor Cymuned Llan-gan.

171 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr, 2022 fel cofnod cywir.

172 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

173 CYFLWYNIAD I'R PWYLLGOR CYSWLLT CYMUNEDOL –

Rhoddodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu gyflwyniad PowerPoint cychwynnol i'r Pwyllgor yn gosod allan y pynciau canlynol:

- Aelodaeth,
- Cylch Gorchwyl,
- Hawliau pleidleisio,
- Siarter rhwng Cyngor Bro Morgannwg a Chynghorau Cymuned a Thref,
- Mynediad at Wybodaeth,
- Eitemau Agenda, a'r
- Broses ceisiadau am Ystyriaeth.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau, aeth y Pwyllgor ymlaen i

CYTUNWYD – Nodi'r cyflwyniad PowerPoint sy'n cynnig cyflwyniad i'r Pwyllgor.

174 MATERION HEDDLU –

Rhoddodd yr Arolygydd McDean ddiweddariad llafar byr i'r Pwyllgor ynghylch galwadau ymateb yn ardal Bro Morgannwg am ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn bennaf aflonyddu gan gymdogion, aflonyddu gan ieuenctid, a throseddau yn ymwneud â moduron.

Byddai Operation Elstree yn dod i rym, fel yn 2021, ar benwythnosau o ddechrau gwyliau haf yr ysgolion. Byddai hyn yn neilltuo mwy o adnoddau'r Heddlu i holl ardal yr arfordir er mwyn gostwng nifer y digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddai swyddogion yn rhoi Gorchmynion Gwarchod Diogelwch y Cyhoedd ar waith, fel rhan o agwedd goddef dim tuag at yfed alcohol mewn mannau ar yr arfordir yn ystod yr haf. Yr oedd hyn yn ymateb i lefel uwch o ddigwyddiadau o aflonyddu gan ieuenctid oherwydd alcohol llynedd. Byddai'r neges hwn yn cael cyhoeddusrwydd eang ar y cyfryngau cymdeithasol, ym Mro Morgannwg a'r ardaloedd cyfagos i ddarpar-ymwelwyr.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson ei fod wedi cael gwybod am ddigwyddiadau yn ddiweddar lle'r oedd pobl ifanc yn neidio i'r dŵr ar Draeth Penarth, Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston, a Phwynt y Rhŵs, a bod hyn yn amlwg yn fater difrifol a allai'n hawdd arwain at ddamweiniau. Tanlinellodd yr angen i bwysleisio wrth y cyhoedd y peryglon difrifol sy'n deillio o weithgareddau fel hyn, a'r angen i rybuddio'r gymuned, a phobl ifanc yn enwedig, rhag gwneud hyn.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Arolygydd McDean y Pwyllgor fod Tîm Plismona'r Gymdogaeth wedi cwrdd â'r RNLI a Gwylwyr y Glannau yr wythnos flaenorol i drafod digwyddiadau addysg am ddiogelwch dŵr fyddai'n cael eu cynnal ar hyd a lled Bro Morgannwg dros yr haf fel rhan o Operation Elstree. Byddai hyn yn ychwanegol at sesiynau diogelwch dŵr fyddai'n cael eu cyflwyno i ddisgyblion ysgol gan Swyddogion Cyswllt Ysgolion ar derfyn y tymor ysgol, a'r addysg am ddiogelwch dŵr sy'n digwydd ar hyn o bryd yng nghyfleusterau hamdden Bro Morgannwg. Byddai'r heddlu hefyd yn patrolio ar hyd yr holl arfordir, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch dŵr.

Yn dilyn cwestiynau pellach gan y Pwyllgor, ychwanegodd yr Arolygydd y canlynol:

- Byddai Diwrnod y Gwasanaethau brys yn cael ei gynnal ar 19 Awst ar ben Clogwyni Penarth. Diwrnod o hwyl i'r teulu fydd hwn, gyda chyfle i'r cyhoedd a'r Pwyllgor fel ei gilydd ymwneud a'r gwahanol wasanaethau brys, a chyda Thîm Plismona Cymdogaeth Penarth.
- Yr oedd gwasanaeth cymhorthfa galw-heibio yr Heddlu 'Paned gyda'r Plismon' yn dal ar gael, lle gallai aelodau'r cyhoedd holi cwestiynau a chodi materion sydd o bwys iddynt gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) a Rheolwyr Rhawd Cymdogaeth o'r heddlu lleol.
- Dylai SCCH fynd i bob sesiwn 'Paned gyda'r Plismon' a chafodd y Tîm Plismona Cymdogaeth fwy o SCCH yn ddiweddar. Cytunodd yr Arolygydd McDean i godi'r mater presenoldeb a godwyd gan y Cynghorydd Franks (Dinas Powys) gyda Rhingyll y Tîm perthnasol er mwyn gwneud yn siŵr y byddai SCCH yn bresennol, gan y byddai'r heddlu eisiau annog ymwneud wyneb yn wyneb nawr fod cyfyngiadau Covid-19 wedi eu codi.
- Byddai rhestr o wybodaeth gyswllt SCCH yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor er mwyn hwyluso cyfathrebu yn dilyn y cyfarfod. Byddai modd cysylltu hefyd â'r gwasanaeth 101 trwy e-bost os byddai angen. Bydd cyfeiriadau e-bost hefyd yn cael eu hanfon at aelodau'r Pwyllgor.
- Byddai'r swyddog perthnasol dros ardal tref y Barri hefyd yn cael manylion cyfarfod nesaf Tref y Barri er mwyn gofalu y bydd yn bresennol.
- Y gwasanaeth ymateb brys 999 oedd yr un priodol i'w ddefnyddio pryd bynnag yr oedd trosedd yn digwydd; fodd bynnag, roedd modd hefyd cysylltu â'r SCCH perthnasol ar rif cyswllt y gwasanaeth.
- Byddai arian ychwanegol i dorri i lawr ar droseddau cerbydau modur a byrgleriaeth o dai preswyl yn cael ei neilltuo i wardiau Castleand a Buttrills yn y Barri, mewn ymateb i lefelau adrodd am droseddau yn yr ardaloedd hynny.
- Er mwyn diogelu'r cyhoedd, gall Swyddogion sy'n ymateb i alwad 999 yng ngherbydau'r gwasanaeth deithio ar bymtheng milltir yr awr yn unig yn uwch na'r terfyn cyflymder cofrestredig wrth ddefnyddio goleuadau a/neu seirenau, ac felly yr oedd teithio'n gyflymach na'r cyflymderau hynny yn anghyfreithlon/yn groes i'r ddeddfwriaeth gyfredol.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, aeth y Pwyllgor ymlaen i

CYTUNWYD - Diolch i'r Arolygydd McDean am ei amser a'i ddiweddariad ar lafar.

175 CAIS AM YSTYRIAETH GAN GYNGOR CYMUNED LLANGAN – GWYBODAETH MEWN ADRODDIADAU TROSEDD A ADRODDWYD GAN YR HEDDLU I GYNGHORAU CYMUNED –

Ar ran ardal Bro Morgannwg, cyflwynwyd cais am ystyriaeth gan Gyngor Cymuned Llangan yn gofyn am adolygu'r wybodaeth mewn adroddiadau am droseddau gan yr Heddlu i gynghorau cymuned.

Dywedodd yr Arolygydd McDean fod y gwasanaeth yn llwyr gytuno fod angen i'r cysylltiadau sydd ganddynt â chynghorwyr lleol fod yn ystyrlon a rhoi'r manylion fyddai'n caniatáu iddynt ymateb i'w hetholwyr yn effeithiol. Wrth i'r gwasanaeth ddechrau ar fodel Plismona Cymdogaeth newydd, yr oedd y Prif Arolygydd Wade wedi trefnu cyfarfod i holl Arolygwyr Cymdogaeth Caerdydd a'r Fro, gyda'r cysylltiadau oedd gan y gwasanaeth gyda'i Rwydweithiau Unigol Allweddol yn rhan arwyddocaol o'r agenda. Yr oedd y Prif Arolygydd Wade wedi dweud fod angen estyn allan eto at yr holl gynghorwyr yn sectorau Bro Morgannwg er mwyn gwneud yn sicr fod y gwasanaeth yn cwrdd yn rheolaidd a dod i gytundeb ynghylch amlder y cyswllt a rhannu gwybodaeth. Wrth gwrs, yr oedd yn rhaid i'r gwasanaeth gadw cydbwysedd rhwng rhoi digon o wybodaeth ac ystadegau fyddai'n caniatáu briffio Cynghorau Tref a Chymuned yn effeithiol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i etholwyr, a chwrdd ag oblygiadau Diogelu Data'r gwasanaeth. At y dyfodol, roedd y gwasanaeth yn hyderus y byddai cyfathrebu rhwng pob ochr, a'r wybodaeth a ddarperid, yn cwrdd ag anghenion y Cynghorau Tref a Chymuned.

Yn dilyn ymateb yr Arolygydd, ychwanegodd y Pwyllgor y sylwadau a ganlyn:

- Byddai derbyn gwybodaeth trosedd a phlismona am dueddiadau, blaenoriaethau a materion allweddol sy'n codi yn ardal Bro Morgannwg, a grynhoir mewn adroddiad i'r Pwyllgor, yn hytrach na'r data amrwd am droseddau a gyflëir ar hyn o bryd.
- Yr oedd yn anodd cyrchu gwybodaeth gyfoes am droseddau gan ddefnyddio gwefan Heddlu De Cymru, oedd yn gwneud cyfathrebu effeithiol rhwng SCCH a Chynghorwyr yn anodd iawn.
- Dylid mabwysiadu agwedd gyson at y modd y cyflwynir data am droseddau i Gynghorwyr mewn Cynghorau Tref a Chymuned ar draws Bro Morgannwg. Gallai ychwanegu adran ar wefan Cyngor Bro Morgannwg ynghylch gwybodaeth am SCCH helpu i liniaru'r problemau am gywirdeb cynnwys ar wefan Heddlu De Cymru.
- Yr oedd Cynghorwyr yn cael ceisiadau i ddod i ddigwyddiadau o fân droseddau, yn enwedig gyda'r nos, pan nad oedd modd cyrraedd y Gwasanaeth 101 Heb Fod yn Frys na'r SCCH i ofyn iddynt ddod yno.

Diolchodd yr Arolygydd McDean i'r Pwyllgor am eu sylwadau a dywedodd ymhellach:

- Y byddai tueddiadau a materion allweddol yn cael eu hymgorffori mewn adroddiadau yn y dyfodol i'r Pwyllgor, i'w gwneud yn haws i'w darllen ac i roi syniad o'r sefyllfa sy'n bodoli ynghylch troseddau yn yr ardal.

- Yn absenoldeb Cyngor Cymuned, gallai aelodau gyrchu ystadegau am droseddau a/neu wybodaeth am blismona lleol ar wefan Ystadegau Trosedd y DU. Gallai timau'r heddlu anelu at gynhyrchu adroddiad misol yn crynhoi gweithgaredd ym mhob ward, i'w gyfleu i aelodau etholedig a Chynghorwyr Tref a Chymuned o wneud cais. Dywedodd y Cadeirydd y byddid yn trefnu trafodaeth ar wahân gyda'r Cynghorydd Campbell (Y Rhŵs) wedi'r cyfarfod.
- Mae angen cyfoesi gwybodaeth ar wefan Heddlu De Cymru ac anfonwyd gwybodaeth gyfoes a pherthnasol at Wasanaethau Corfforaethol yr Heddlu, ond yr oedd hyn yn cymryd peth amser.
- Cydnabuwyd y gallai adran ar SCCH lleol ar wefan Bro Morgannwg fod o gymorth. Byddai'n rhaid i'r gwasanaeth gael cais yn gosod allan ffurf yr ystadegau er mwyn sicrhau agwedd gyson at adrodd yn y dyfodol.
- Dylai SCCH fod ar ddyletswydd gyda'r nos tan hanner nos, ac yr oedd dau dîm SCCH yn y Barri ar waith gyda'r nos. Golygai hyn y byddai modd cysylltu â'r SCCH ac y gallent ymateb i ddigwyddiadau a gafodd eu crybwyll pan nad oedd modd cysylltu â'r Gwasanaeth 101 Heb Fod yn Frys. Byddid yn adrodd yn ôl ar y mater fel y'i codwyd gan y Cynghorydd Aviet (Y Barri) wrth y timau plismona perthnasol er mwyn gwneud yn siŵr fod gan Gynghorwyr a'r cyhoedd wybodaeth gyswllt berthnasol a chyfredol y SCCH.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, aeth y Pwyllgor ymlaen i

CYTUNWYD -

(1) Rhoi crynodeb ysgrifenedig o sylwadau'r Pwyllgor, fel y'u nodir yn y cofnod uchod, i'r Arolygydd McDean yn dilyn y cyfarfod.

(2) Rhannu gwybodaeth gyswllt Arolygwyr Cymdogaeth a Swyddogion Cymorth Cymunedol Heddlu Bro Morgannwg â holl Aelodau Etholedig a Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned Bro Morgannwg yn dilyn y cyfarfod.

<u>Y rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Sicrhau bod pryderon y Pwyllgor mewn perthynas â Phresenoldeb Swyddogion yr Heddlu, Rhannu Data a Gwybodaeth Gyswllt Swyddogion yr Heddlu sydd ar gael i Aelodau Etholedig a Chynghorau Tref a Chymuned Bro Morgannwg yn cael eu mynegi gyda'r gwasanaeth drwy'r Arolygydd McDean ar gyfer gwella yn y dyfodol.

(2) Annog proses fwy effeithlon o rannu data ystadegol, gwybodaeth leol ac adroddiadau am droseddau rhwng Cynghorwyr a swyddogion yr Heddlu.

176 MATERION GWASANAETH TÂN AC ACHUB –

Dywedodd Mr Hadfield fod ystadegau am ardal Bro Morgannwg yn sefydlog, ac felly nad oedd dim arwyddocaol i'w nodi; fodd bynnag, byddid yn darparu cyflwyniad manylach i gyfarfod y pwyllgor ym mis Hydref.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau, aeth y Pwyllgor ymlaen i

CYTUNWYD - Diolch i Mr Hadfield am ei amser a'i ddiweddariad ar lafar.

177 GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU – YMOSODIADAU CRIW GWASANAETH CYHOEDDUS: GRADDFA AC YMATEB **–**

Rhoddodd Mr Hadfield gyflwyniad PowerPoint i'r Pwyllgor, i osod allan yr ystadegau am ymosodiadau ar weithwyr y gwasanaethau brys ar draws ardal de Cymru gyfan. Dangosodd yr ystadegau fod dros 1,360 o ymosodiadau wedi digwydd yn y cyfnod o chwe mis o 1 Ionawr 2021 – 30 Mehefin yn y rhanbarth.

Ychwanegodd Mr Hadfield fod y gwasanaeth yn cymryd agwedd o oddef dim ymosodiadau ar ei staff a bod y cyfnod cyn Noson Tân Gwyllt bob blwyddyn fel arfer yn cyfrif am 50% o'r holl ymosodiadau.

Yr oedd Mr Hadfield yn falch o allu adrodd fod y ffigyrau penodol ar gyfer ardal Bro Morgannwg yn isel iawn ac yn ymwneud yn bennaf a difenwi geiriol neu wrthrychau'n cael eu taflu. Mae'r Gwasanaeth Tân yn dal i weithio gyda'i bartneriaid i ddwyn y troseddwyr i gyfrif.

Holodd y Cynghorydd J. Aviet a allai aelodau o'r cyhoedd oedd yn bwriadu cael coelcerthi cyhoeddus tua 5 Tachwedd, ac a oedd wedi derbyn caniatâd gan Gyngor Bro Morgannwg, gael hyfforddiant diogelwch tân gyda'r Gwasanaeth Tân cyn Tachwedd 5, gyda'r nod o annog y sawl sy'n dewis cynnal coelcerthi cyhoeddus i wneud hynny'n ddiogel.

Dywedodd Mr. Hadfield fod gan y Gwasanaeth Tan agwedd o oddef dim coelcerthi cyhoeddus anghyfreithlon, ond fod gan y Gwasanaeth Dîm Partneriaeth Diogelwch Cymunedol i siarad ag arweinwyr cymunedau am wneud coelcerthi yn y cyfnod yn arwain at Dachwedd 5. Dywedodd Mr Hadfield y byddai'n rhaid trafod cynlluniau ar gyfer unrhyw hyfforddiant yn fewnol yn y Gwasanaeth, a chytunodd felly i gysylltu â'r Cynghorydd Aviet wedi'r cyfarfod

Gofynnodd y Cynghorydd I. Buckley a oedd criwiau'r Gwasanaeth Tân yn dal i ddefnyddio 'Pecynnau Poeri' i helpu wrth erlyn pobl sy'n poeri ar griwiau'r Gwasanaeth Tân, ac a arweiniodd y rhain at erlyniadau llwyddiannus. Atebodd Mr. Hadfield fod y 'Pecynnau Poeri' wedi eu cyflwyno ryw ddeng mlynedd yn ôl, fel ffordd o rwystro a gwrthweithio ymosodiadau, trwy gymryd sampl DNA i gyfatebu â DNA pobl oedd dan amheuaeth. Dywedodd Mr. Hadfield y byddai'n rhaid iddo gasglu ynghyd y data am erlyniadau trwy ddefnyddio'r dull hwn er mwyn dweud wrth y Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol beth oedd y cyfraddau llwyddiant.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, aeth y Pwyllgor ymlaen i

CYTUNWYD – Diolch i Mr Hadfield am ei gyflwyniad llawn gwybodaeth ar Ymosodiadau ar Griwiau Gwasanaeth Cyhoeddus yn Ardal De Cymru.

178 ENWEBU CYNRYCHIOLWYR O GYNGHORAU TREF A CHYMUNED AR GYFER Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS, CYDBWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL A PHANEL GWERTHUSO'R GRONFA CYMUNEDAU CRYF (PW) **–**

Cyflwynodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yr adroddiad, i geisio'r penodiadau canlynol:

- cynrychiolydd o Gynghorau Tref a Chymuned i ymuno â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn unol â chanllawiau statudol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,
- cynrychiolydd i eistedd ar Gydbwyllgor Cyswllt Sector Wirfoddol Cyngor Bro Morgannwg; a
- chynrychiolydd o Gyngor Tref yn ogystal â chynrychiolydd o Gyngor Cymuned i fod yn aelod o Banel Gwerthuso Cronfa Cymunedau Cryf.

Gan nad oedd sylwadau na chwestiynau am gyd-destun yr adroddiad, gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau am bob penodiad a chynhaliodd bleidlais wedi'i chofnodi yng nghyswllt cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned i ymuno â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) fel a ganlyn:

| **Enwebiad 1: Cynghorydd Shirley Hodges (Cyngor Tref y Barri)**<br>Cynigiwyd gan: Cynghorydd Nic Hodges<br>Eiliwyd gan: Cynghorydd Julie Aviet | **Enwebiad 2: Cynghorydd Michael Cuddy (Cyngor Tref Penarth)**<br>Cynigiwyd gan: Hunan<br>Eiliwyd gan: Cynghorydd Mark Wilson |
|---|---|
| **(6) Pleidleisiau'r Aelodau Etholedig** | **(4)** |
| Asbrey | Birch |
| Aviet | Lynch-Wilson |
| Campbell | Perkes |
| Hodges | Wilson |
| Hanks | |
| Cave | |
| **D.S.** Yr oedd y Cynghorydd Haines wedi gadael y cyfarfod cyn cynnal y bleidlais.<br>Nid oedd y Cynghorydd Payne yn bresennol yn y cyfarfod.<br>Nid oedd y Cynghorydd R. Thomas yn bresennol yn y cyfarfod. | |
| **(7) Barn Cynghorau Tref a Chymuned** | **(8)** |
| Cyngor Tref y Barri *Hunan | Cyngor Tref Penarth *Hunan |
| Cyngor Cymuned Tregolwyn | Cyngor Tref y Bontfaen gyda Llanblethian |
| Cyngor Cymuned Llanmaes | Cyngor Cymuned Llancarfan |
| Cyngor Cymuned Pendeulwyn | Cyngor Cymuned Llangan |
| Cyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn | Cyngor Cymuned Sain Tathan |
| Cyngor Cymuned Sili a Larnog | Cyngor Cymuned Sain Siorys a Saint-y-brid |
| Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-pwll gyda Lecwydd | Cyngor Cymuned y Wig |
| | Cyngor Tref Llanilltud Fawr |
| **(13)** | **(12)** |

Ni fu cystadleuaeth am yr holl enwebiadau eraill.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau, aeth y Pwyllgor ymlaen i

CYTUNWYD -

(1) Penodi’r Cynghorydd Shirley Hodges (Cyngor Tref y Barri) fel Cynrychiolydd y Cyngor Tref a Chymuned ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cyngor Bro Morgannwg am ddwy flynedd, hyd at fis Gorffennaf 2024.

(2) Penodi’r Cynghorydd Conway Hawkins (Cyngor Cymuned y Wig) fel Cynrychiolydd y Cyngor Tref a Chymuned ar Gydbwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol Cyngor Bro Morgannwg hyd at etholiadau Llywodraeth Leol 2027.

(3) Penodi’r Cynghorydd Michael Cuddy (Cyngor Tref Penarth) fel Cynrychiolydd y Cyngor Tref ar Banel Gwerthuso Cronfa Grant Cymunedau Cryf Bro Morgannwg hyd at etholiadau Llywodraeth Leol 2027.

(4) Penodi’r Cynghorydd David Reed (Cyngor Cymuned Llan-gan) fel Cynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar Banel Gwerthuso Cronfa Grant Cymunedau Cryf Bro Morgannwg hyd at etholiadau Llywodraeth Leol 2027.

<u>Y rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Galluogi cynrychiolydd o'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol i gael ei benodi i'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus er mwyn sicrhau ymgysylltiad effeithiol â Chynghorau Tref a Chymuned a glynu wrth y Canllawiau Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

(2) Sicrhau cyswllt gwerthfawr rhwng y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol a Chydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol.

(3 a 4) Galluogi Cynghorau Tref a Chymuned i gymryd rhan yn y gwaith o werthuso ceisiadau i Gronfa Grant Cymunedau Cryf y Cyngor.

179 CAIS AM YSTYRIAETH GAN GYNGOR SAN NICOLAS A THRESIMWN – ARIAN A106–

Ar ran ardal Bro Morgannwg, cyflwynwyd cais am ystyriaeth gan Gyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn yng nghyswllt dyraniadau Adran 106 (A106).

Y mater a godwyd gan y Cyngor Cymuned oedd bod: “*arian A106 wedi ei gyfeirio’n bennaf at “dai fforddiadwy”/mwy o dai, heb fawr ddim wedi ei adael dros ben i seilwaith na chyfleusterau*”.

Y rheswm a roddwyd am y cais oedd: “*Gyda’r CDLl yn cael ei adolygu, fod hyn yn amser da i ystyried am beth y defnyddir A106 – a bod cwynion lu gan drigolion Bro Morgannwg nad yw’r datblygiad newydd yn dod â’r seilwaith na’r cyfleusterau sydd eu hangen*”.

Mewn ymateb, dywedodd Uwch-Swyddog Cynllunio Bro Morgannwg fod Cyngor Bro Morgannwg wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth sicrhau lefelau uchel o dai fforddiadwy, yn ychwanegol at dderbyn cyfraniadau ariannol Adran 106, i gefnogi seilwaith a chyfleusterau er mwyn lliniaru effeithiau datblygiadau mawr newydd. Ar 31 Mawrth 2022, yr oedd gan y Cyngor £18,738,499.06 ym mhrif gyfrif Adran 106, gyda symiau mawr ar gyfer cyfleusterau addysg, cludiant cynaliadwy, mannau agored cyhoeddus, gwaith priffyrdd oddi ar y safle, tai fforddiadwy, cyfleusterau cymunedol a chelf gyhoeddus.

Fodd bynnag, derbyniwyd na fydd modd yn wastad i ddatblygwyr fodloni gofynion y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) am dai fforddiadwy ac oblygiadau cynllunio. Yr oedd hyn yn bennaf oherwydd cyfyngiadau safleoedd unigol a phroblemau hyfywedd, a nodwyd hyn ym Mholisi MD4 a pharagraffau ategol 7.29-7.31.

Cytunodd Cyngor Bro Morgannwg y dylai adolygiad o'r CDLl roi cyfle i gynnal adolygiad o hyfywedd datblygiad er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cymryd yr agwedd bolisi fwyaf priodol i gyflwyno'r nifer uchaf o dai fforddiadwy, yn ychwanegol at seilwaith a chyfleusterau cymunedol, ac i ystyried unrhyw bolisïau posib newydd o ran seilwaith gwyrdd a newid hinsawdd.

Holodd y Cynghorydd Perry (Cyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn) a oedd amserlen am godi 1,205 o dai newydd y flwyddyn i gwrdd â'r galw fel y nodwyd yn yr adroddiad. Tynnodd y Cynghorydd Perry sylw hefyd at y ffaith fod ar gymunedau gwledig yn arbennig angen cyfleusterau a gwelliannau ychwanegol megis ffyrdd mwy diogel, ond ei bod yn ymddangos nad oedd cyllid ar gyfer hyn.

I ateb y pwyntiau hyn, dywedodd Uwch-Swyddog Cynllunio Bro Morgannwg fod amserlen 5-mlynedd wedi ei hawgrymu ar gyfer codi 1,205 o gartrefi newydd, seiliedig ar y data am y 2 flynedd a aeth heibio. O ran datblygiad Tresimwn, yr oedd y Cais Cynllunio am y datblygiad yn manylu am y rhesymau pam y tybid bod y datblygiad yn dderbyniol a hyfyw.

Mewn ymateb i sylw'r Cynghorydd Perry am yr angen am gyfleusterau ychwanegol mewn cymunedau gwledig, tynnodd yr Uwch-Swyddog Cynllunio sylw'r aelodau ar baragraff 1.3 yn yr adroddiad sydd yn gosod allan ddeddfwriaeth y Rheoliadau seilwaith Cymunedol sydd yn rhoi rhwymedigaeth statudol ar Gyngor Bro Morgannwg i sicrhau bod unrhyw rwymedigaethau yn deg ac yn rhesymol gymesur â datblygiad. Ni fyddai polisïau Bro Morgannwg yn caniatau cyfiawnhad cyfreithiol am ddatblygiadau mwy helaeth yng nghyswllt nifer yr anheddau yn y datblygiadau yn Sain Nicolas a Thresimwn.

Holodd y Cynghorydd Cuddy (Cyngor Tref Penarth) sut y byddid yn dwyn y gymuned i mewn a sut yr ymgynghorir â hwy yn y broses o greu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd sydd ar y gweill, gan gynnwys Asesiadau Hyfywedd Strategol. Atebodd yr Uwch-Swyddog Cynllunio fod y rhan fwyaf o wybodaeth am hyfywedd yn y parth cyhoeddus oni fyddai achos cryf dros sensitifrwydd masnachol, a bod materion hyfywedd ar safleoedd unigol ar gael yn awr trwy'r Gofrestr Gynllunio. Y cam cyntaf yn y broses o greu Cynllun Datblygu Lleol newydd oedd paratoi Cytundeb Cyflwyno; yr oedd hyn bellach wedi digwydd, a'r

ymgynghori wedi digwydd. Yr oedd y Cytundeb Cyflwyno yn cynnwys amserlen o ran paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, yn ogystal â Chynllun Ymwneud y Gymuned. Mae Cynllun Ymwneud y Gymuned yn gosod allan sut, pryd a phwy fyddai'n rhan o'r ymwneud yn ystod y broses, gan gynnwys y sawl y dylid ymgynghori â hwy yn statudol ac mewn cymunedau. Adroddwyd am hyn wrth y Cyngor llawn a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar 4 Mai 2022. Yr oedd y ddogfen ar gael i'r cyhoedd ar wefan Cyngor Bro Morgannwg.

Gofynnodd y Cynghorydd Perry a fyddai Treth Seilwaith Cymunedol a grybwyllwyd o'r blaen yn cael ei chodi yn y dyfodol. Atebodd yr Uwch-Swyddog Cynllunio fod gwaith ar Dreth Seilwaith Cymunedol bosib wedi ei atal tra bod Llywodraeth Cymru yn adolygiad, wedi i'r mater gael ei ddatganoli. Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi newidiadau ar waith, fel y digwyddodd yn ddiweddar yn Lloegr. Yr oedd yr Uwch-Swyddog Cynllunio hefyd o'r farn fod y broses Adran 106 gyfredol yn gweithio'n dda i ardal Bro Morgannwg, yn rhannol oherwydd, yn wahanol i Dreth Seilwaith Cymunedol, nad oedd yn cael ei godi ar gyfradd haearnaidd fesul metr sgwâr, a bod hyn yn caniatau trafod y taliadau. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith na fyddai arian a godwyd trwy Dreth Seilwaith Cymunedol mewn un rhan o Fro Morgannwg o raid yn cael ei wario yn yr un ardal, ond y gellid ei wario yn unrhyw ran o ardal yr Awdurdod Lleol.

Holodd y Cynghorydd Cuddy a fyddai'r wybodaeth o'r Asesiad Hyfywedd Strategol yn cael ei gyhoeddi. Dywedodd yr Uwch-Swyddog Cynllunio a'r Prif Swyddog Cynllunio, yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru, mai eu bwriad oedd y byddai'r rhan fwyaf o hyn yn cael ei gyhoeddi yn y dyfodol, a lle bo datblygwr yn mynnu cadw peth gwybodaeth yn gyfrinachol, byddai hyn yn cael ei adael allan o ystyried cais cynllunio.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, aeth y Pwyllgor ymlaen i

CYTUNWYD – Nodi cynnwys adroddiad cynhwysfawr y Swyddog.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Mewn ymateb i'r Cais am Ystyriaeth a godwyd ar ran y Pwyllgor gan Gyngor Cymuned Sain Nicolas gyda Thresimwn.

180 CAIS AM YSTYRIED GAN GYNGOR TREF LLANILLTUD FAWR – GORCHMYNION CADW COED –

Ar ran ardal Bro Morgannwg, cyflwynwyd cais am ystyriaeth gan Gyngor Tref Llanilltud Fawr yng nghyswllt Ceisiadau Cynllunio Gorchmynion Cadw Coed (GCC).

Dyma oedd y rheswm dros y cais:

"*Mae'r Cyngor Tref yn teimlo'n rhwystredig am nad oes modd iddynt wneud sylwadau am Geisiadau Cynllunio GCC yn eu tref. Dros y blynyddoedd diwethaf, cwympwyd canran uchel o goed yn ardal gadwraeth y dref.*

*Gan gyfeirio at Amcanion Lles y Cyngor Tref yng nghyswllt yr amgylchedd a chadwraeth, rydym yn teimlo mae dyma faes y dylem, fel cyngor lleol, allu ymdrin ag ef.*

*Mae gan y Cyngor Tref bryderon dybryd am nifer y coed a gwympwyd nid yn unig yn ein tref ond yn y Fro gyfan, ac yr ydym am drafod gyda'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol i weld sut y gellir ymdrin â hyn a'i reoli yn y dyfodol*."

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol Cynllunio a Rheoli Adeiladu, hyd yma yn 2022, fod y Cyngor wedi derbyn tri deg a chwech o geisiadau am waith ar goed GCC neu eu symud, a phedair o'r rhain yn Llanilltud Fawr. Gwrthodwyd dau o'r tri deg a chwech (naill ai yn gyfan gwbl neu yn rhannol) a thynnwyd dau yn ôl. Cafodd y gweddill naill ei eu cymeradwyo neu maent yn aros am benderfyniad.

Nid oedd Deddf Cynllunio Gwlad a Thref na'r Rheoliadau Coed yn mynnu bod angen ymgynghori ag eiddo gerllaw, Aelodau Lleol a Chynghorau Tref/ Cymuned am geisiadau i wneud gwaith i goed GCC. Dylai ceisiadau gan y Cyngor i wneud gwaith i goed GCC ar dir ym mherchenogaeth y Cyngor gael eu hysbysebu ar y safle am 21 diwrnod; fodd bynnag, nid oedd y gofyniad am gyhoeddusrwydd yn bodoli am geisiadau GCC eraill. Byddai ceisiadau GCC yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac y mae modd defnyddio'r meysydd chwilio i chwilio fesul math o gais ac ardal. Byddai unrhyw sylwadau fyddai'n cael eu derbyn yn cael eu hystyried fel rhan o asesiad y cais.

Yr oedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn mynnu bod datganiad o resymau dros y gwaith arfaethedig yn dod gyda cheisiadau am waith i goed GCC, ac adroddiad gan weithiwr coed proffesiynol (coediwr) neu rywun arall gyda chymwysterau addas. Os na fyddai cyfiawnhad gyda'r cais, mae'n debyg y byddai'r faith gais yn cael ei wrthod. Yn yr un modd, os na fyddai'r cyfiawnhad a ddyfynnwyd yn dderbyniol (e.e. gwaith cynnal rheolaidd megis casglu dail sydd wedi cwympo) yna byddai'r cais yn cael ei wrthod.

Ymysg enghreifftiau o gyfiawnhad derbyniol am waith i goed (mewn egwyddor) mae bod angen y gwaith er mwyn iechyd y goeden, fod tystiolaeth fod y goeden yn achosi niwed i eiddo, neu fod y goeden yn risg i ddiogelwch. Petai cyfiawnhad dros y cais a'i fod yn dderbyniol, byddai'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn mynnu ail-blannu ar gymhareb o ddwy goeden am bob un a gollwyd. Os na fyddai digon o le ar safle i blannu'r coed hyn, gallai'r Cyngor dderbyn cyfraniad ariannol i dalu am blannu coed ar dir y Cyngor gerllaw'r safle.

Yn dilyn ymateb y Swyddog i'r cais, gofynnodd y Cynghorydd G. Thomas (Cyngor Tref Llanilltud Fawr), a ellid hysbysu Cyngor Tref Llanilltud Fawr am waith i gwympo coed yn eu hardal, yn hytrach na gorfod chwilio am wybodaeth o'r fath ar wefan Cyngor Bro Morgannwg. Cytunodd y Rheolwr Gweithredol Cynllunio a Rheoli Adeiladu i ymchwilio i hyn fel posibilrwydd, a chysylltu'n uniongyrchol â Chyngor Tref Llanilltud Fawr gydag ymateb. Fodd bynnag, dywedodd y gallai hyn greu prosesau ychwanegol, ac y gallai'r adran gael anhawster i gael digon o staff i weithredu pan fyddai'n rhaid rhoi blaenoriaeth i fathau eraill o hysbysu ac ymgynghori oedd eu hangen dan y canllawiau statudol. Yr oedd y penderfyniadau

i gwympo coed, yn wahanol i benderfyniadau cynllunio eraill, yn dueddol o fod yn wrthrychol i raddau helaeth, heb fawr o le i farn, ac felly dyna pam y defnyddir gweithwyr coed proffesiynol ac nad oedd angen ymgynghori, ond gallai Cynghorwyr wneud sylwadau am bob achos, a byddai'r rhain yn cael eu hystyried.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, aeth y Pwyllgor ymlaen i

CYTUNWYD – Nodi cynnwys adroddiad cynhwysfawr y Swyddog.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Mewn ymateb i'r Cais am Ystyriaeth a godwyd ar ran y Pwyllgor gan Gyngor Tref Llanilltud Fawr.